# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Preswyl Plas Garnedd**

**CARTREF PRESWYL PLAS GARNEDD**
**FFORDD PENMYNYDD**
**LLANFAIRPWLLGWYNGYLL**
**LL61 5EX**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

## 27 Ionawr 2020

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2020.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gwasanaeth Cartref Gofal** |
| **Darparwr Gwasanaeth** | **PLAS GARNEDD CARE LIMITED** |
| **Unigolyn Cyfrifol** | **Elen Hughes** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **28** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **21 Chwefror 2018** |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | **27/01/2020** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Cymraeg** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | **Ydy** |

## Crynodeb

Mae'r bobl yn cael budd o amrywiaeth o weithgareddau, bwyd o ansawdd da a chyngor iechyd hygyrch gan weithwyr proffesiynol sy'n ymweld â'r cartref. Mae'r cartref yn lân, yn gynnes ac yn cynnwys digon o adnoddau i helpu'r bobl i symud o gwmpas. Mae cynlluniau gofal personol wedi'u llunio er mwyn cynnwys llawer o wybodaeth ddefnyddiol, ond nid ydynt yn cael eu defnyddio i'w llawn botensial eto. Mae'r bobl yn canmol y staff a'r rheolwr, sy'n rhyngweithio â'r bobl mewn ffordd garedig ac amyneddgar gan ddefnyddio hiwmor priodol. Mae'r bobl yn mwynhau byw yn y cartref hwn; maent yn canmol yr amgylchedd a'r staff sy'n eu cefnogi.

## 1. Llesiant

Mae gan y bobl reolaeth dros eu bywydau beunyddiol, a chânt y cyfle i wneud dewisiadau yn eu cylch. Mae'r bobl yn teimlo eu bod yn gallu mynegi eu barn yn agored a bod y staff gofal yn gwrando arnynt. Maent yn canmol y staff sy'n gweithio yn y cartref i'r cymylau. Mae'r rheolwr bob amser ar gael i wrando ar y bobl. Mae gwybodaeth am weithgareddau'r diwrnod yn helpu'r bobl i gynllunio eu diwrnod. Mynegodd y bobl eu bod yn hapus yn byw yn y cartref.

Gofelir am iechyd corfforol a meddyliol y bobl. Darperir cyngor a chymorth gan amrywiaeth o weithwyr iechyd proffesiynol sy'n ymweld â'r cartref, ac mae'r rheolwr yn mynd ati i sicrhau bod y bobl yn cael y cymorth cywir pan fydd ei angen arnynt. Mae amrywiaeth o gymhorthion symud a chyfarpar yn helpu'r bobl i symud o gwmpas y cartref mor annibynnol â phosibl.

Mae'r staff gofal yn sicrhau bod y bobl yn ddiogel ac yn cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth. Maent wedi'u hyfforddi i nodi unrhyw arferion sy'n peryglu llesiant unigolyn yn eu barn nhw, a rhoi gwybod amdanynt. Mae'r staff gofal a'r rheolwr yn treulio amser tawel gyda'r bobl er mwyn eu galluogi i godi unrhyw bryderon neu faterion a allai fod ganddynt.

Mae'r cartref yn addas i'r bobl sy'n byw yno. Mae'n lân, yn daclus ac yn cynnwys digon o adnoddau i helpu'r bobl i fod mor ddiogel â phosibl. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn mwynhau byw yma.

## 2. Gofal a Chymorth

Mae rheolwr y gwasanaeth yn ystyried amrywiaeth o wybodaeth cyn penderfynu a yw'r gwasanaeth yn addas i'r unigolyn ac a ellir diwallu ei anghenion. Mae'r unigolyn, y teulu a'r gweithwyr proffesiynol yn cyfrannu at asesiad o anghenion a dymuniadau'r unigolyn. Gwelsom fod y rheolwr yn cwblhau asesiadau o angen cyn derbyn rhywun i'r cartref. Mae'n dogfennu hanes meddygol llawn yr unigolyn ac yn cynnal asesiadau risg.

Mae gan y staff gofal gynllun gofal cyfredol a chywir ar gyfer pob unigolyn sy'n byw yn y gwasanaeth. Gwelsom gyfarwyddiadau ysgrifenedig a oedd yn dweud wrth y staff sut i helpu i symud pobl a oedd yn fwy dibynnol yn gorfforol. Gwelsom y staff yn gwneud hyn gydag amynedd a gofal, gan gynnig sicrwydd, esbonio'r hyn roeddent yn ei wneud a defnyddio llais digynnwrf. Caiff cynllun rheoli risg ei lunio fel y gall unigolyn barhau i fod yn gyfrifol am ei feddyginiaeth ei hun, ac felly gynnal lefel o annibyniaeth. Mae'r staff gofal yn adolygu ac yn diweddaru cynlluniau personol yn aml er mwyn sicrhau eu bod yn gywir bob amser.

Mae'r staff gofal yn darparu gofal a chymorth o'r ansawdd sydd ei angen ar yr unigolion, ar ôl ymgynghori â nhw ynglŷn â hyn. Mae'r staff gofal yn darparu ar gyfer dymuniadau a dewisiadau personol yr unigolion. Mae dogfennau sy'n dwyn y teitl 'Dyma Fi' yn cynnwys gwybodaeth gynhwysfawr am yr hyn sy'n bwysig i'r unigolyn, eu dewisiadau ynghylch arferion a strwythur dyddiol, eu cryfderau a meysydd lle mae angen cymorth arnynt. Gwelsom nad oedd rhai cynlluniau yn cynnwys dyheadau na chanlyniadau dymunol y bobl, a gallai hyn arwain at golli cyfleoedd i hybu eu llesiant ymhellach. Mewn un cynllun, nid oedd yr adran ar ofal y croen yn cynnwys unrhyw wybodaeth, er bod symudedd yr unigolyn wedi newid yn ddiweddar, gan beryglu cyflwr ei groen. Rydym yn disgwyl i'r rheolwr fynd i'r afael a'r hepgoriadau hyn er mwyn sicrhau bod llesiant y bobl a'u canlyniadau dymunol yn cael eu hystyried yn llawn.

Mae'r staff gofal yn trefnu amrywiaeth o weithgareddau a gall y bobl ddewis p'un a ydynt am gymryd rhan neu beidio. Mae'r staff gofal yn cefnogi'r bobl i wneud yr hyn sy'n eu gwneud yn hapus, gan gynnal annibyniaeth drwy strategaethau rheoli risgiau sydd wedi'u dogfennu. Gwnaeth un aelod o'r staff ganmol y gweithgareddau a'r dewisiadau y mae'r bobl yn eu cael adeg prydau bwyd, a dywedodd y bobl yn y gwasanaeth eu bod yn hapus yn byw yma. Mae'r bobl yn canmol y gofal a'r cymorth maent yn eu cael gan y staff gofal; maent yn teimlo eu bod yn gallu dweud os nad ydynt yn fodlon ar rywbeth. Maent yn canmol y bwyd; yr amrywiaeth, y dognau hael a'r dewisiadau amgen a ddarperir os bydd angen. Gwnaeth un unigolyn ganmol y trefniadau golchi dillad a smwddio ac roedd am i ni dynnu sylw at hyn.

Mae'r rheolwr yn cefnogi'r bobl i gael gafael ar ofal iechyd a gwasanaethau eraill er mwyn cynnal eu hiechyd a'u llesiant. Roedd y cofnodion yn dangos bod y rheolwr yn ceisio cyngor maethol gan weithwyr proffesiynol ac mae'r cyngor a geir yn cael ei gynnwys yn y cynllun gofal. Gwnaeth y staff gofal gadarnhau bod y rheolwr yn cyfeirio materion at weithwyr

proffesiynol yn brydlon pan fydd anghenion y bobl yn newid; mae hyn yn helpu i ysgogi cynllun os nad yw'r gwasanaeth yn gallu diwallu anghenion y bobl mwyach. Gwelsom fod gan y bobl y cyfarpar a'r cymhorthion penodol ar gyfer eu hanghenion, megis matresi arbennig neu fatiau synhwyro.

Mae systemau clir ar waith i ddiogelu'r bobl sy'n byw ym Mhlas Garnedd. Mae cofnodion yn dangos bod cyfyngiadau ar ryddid unigolyn ond yn cael eu rhoi ar waith yn dilyn cyfarfod â phawb dan sylw, er mwyn penderfynu a yw hyn er eu budd pennaf.

## 3. Yr Amgylchedd

Mae'r darparwr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn un sy'n cefnogi anghenion gofal unigol y bobl. Gwelsom amrywiaeth o gyfarpar i helpu'r bobl i symud o gwmpas y cartref a'u galluogi i dreulio'r diwrnod ble bynnag a sut bynnag yr hoffent. Mae dewis o faddonau a chawodydd. Mae poster ar gyfer gweithgareddau'r wythnos yn cael ei arddangos fel y gall y bobl edrych ymlaen atynt a chynllunio eu diwrnod. Mae'r bobl yn hapus â'u hystafelloedd. Dywedodd y staff fod y cartref yn gynnes, yn gyfeillgar, yn lân ac yn ffres. Gwelsom nad oedd biniau pedal ar gael ym mhob ystafell ymolchi i'r bobl taflu eu sbwriel. Gwelsom fod rhai cofnodion yn weladwy i eraill a dylid eu storio mewn modd mwy cyfrinachol. Mae risg y bydd eraill yn gweld gwybodaeth bersonol ac rydym yn argymell y dylid mynd i'r afael â hyn.

Caiff y risgiau i iechyd a diogelwch eu nodi a'u lliniaru'n gyflym. Dywedodd y staff gofal wrthym fod gwaith cynnal a chadw yn cael ei gwblhau'n brydlon er mwyn cadw'r adeilad yn ddiogel a sicrhau bod y cyfleusterau'n parhau i fod yn effeithiol; roedd cofnodion yn cadarnhau hyn. Mae'r cartref yn lân ac mewn cyflwr da. Gwelsom gofnodion eraill yn dangos bod profion a gwaith gwasanaethu rheolaidd yn cael eu cynnal, er enghraifft, tymereddau dŵr, larymau tân, goleuadau argyfwng, gosodiadau nwy a thrydan a'r lifft. Gwelsom fod rhai cynhyrchion glanhau wedi cael eu gadael allan, gan beri risg bosibl i rai pobl nad ydynt yn adnabod nac yn deall beth sydd ynddynt efallai. Ar ddiwrnod ein hymweliad, nid oedd drws ffrynt yr adeilad ar glo, er mwyn galluogi'r bobl i fynd a dod fel y mynnent, a oedd yn golygu nad oedd yr adeilad yn gwbl ddiogel. Gallai unrhyw un ddod i mewn a allai gael effaith ar y bobl ac rydym yn argymell y dylid mynd i'r afael â hyn.

## 4. Arwain a Rheoli

Caiff y bobl eu cefnogi gan staff gofal sy'n garedig ac yn barchus, ac mae digon ohonynt wedi'u cyflogi er mwyn diwallu eu hanghenion. Mae gweithdrefnau recriwtio yn sicrhau mai dim ond pobl sy'n addas ar gyfer y swydd sy'n cael eu cyflogi. Dywedodd y staff gofal eu bod yn cael amser tawel gyda'r bobl sy'n byw yn y cartref, gan gynnal gweithgareddau a chael sgyrsiau un i un. Gwelsom fod y staff gofal wedi'u hyfforddi i gyflawni eu rolau. Roedd y staff yn canmol y cymorth roeddent yn ei gael gan y rheolwr a gwnaethant ddweud eu bod yn teimlo eu bod wedi'u paratoi'n dda ar gyfer eu rôl. Mae'r staff yn cael cyfarfodydd un i un gyda'r rheolwr, yn ogystal â chyfnod sefydlu, pan fyddant yn dechrau yn eu swydd. Mae'r cyfarfodydd staff yn helpu i sicrhau bod pawb yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd yn y cartref ac yn rhoi'r cyfle iddynt godi unrhyw bryderon neu rannu syniadau. Mae'r staff yn teimlo eu bod yn gweithio'n dda fel tîm ac roedd y bobl sy'n byw yn y cartref yn eu canmol. *"Staff gwych"* , *"parchus"* , *"dim byd o'i le"* .

Mae'r rheolwr yn sicrhau diwylliant agored. Mae'r staff yn teimlo'n gyfforddus iawn yn codi materion gyda'r rheolwr a nodwyd ei bod yn *"approachable, always available, helpful and open to suggestions"*. Yn yr un modd, dywed y staff fod perchennog y cartref yn fenyw agored a chynnes iawn, *"someone I could go to if I needed to".*

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan:
www.arolygiaethgofal.cymru

**Dyddiad Cyhoeddi** 05/08/2020

Nid oedd unrhyw gofnodion diffyg cydymffurfio â statws agored.